**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 19 Mehefin 2018, 18.00-19.30
Dydd Mawrth 19 Mehefin 2018, 18.00-19.30

Lleoliad: Ystafell Gynadledda D, Tŷ Hywel .
Conference Room C, Tŷ Hywel

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Graham Phillips, Huw Jenkins, Jill Swift, Simon Scourfield, Henry Wilkins, Heather Stephens, Dr Vivek Goel, Huw Jenkins, Simon Thomas AC, Llyr Gruffydd AC. |
| 2 | Cofnodion y cyfarfod diwethaf<br><br>a. Trafod y cofnodion a'u cymeradwyo<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion.<br><br>b. Materion yn codi<br><br>Roedd yr holl faterion a godwyd wedi'u cynnwys yn yr agenda. |
| 3 | Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf (Tristan Humphreys)<br><br>Rhoddodd Tristan Humphreys (TH) drosolwg o hynt Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018. Daeth yn gyfraith ym mis Ionawr ac mae'r pwyslais yn awr ar is-ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer. Rydym yn pryderu bod Llywodraeth Cymru i'w gweld yn awyddus i beidio â diwygio'r Cod ac i fwrw ymlaen â fersiwn sy'n bygwth ei gwneud yn anoddach, yn hytrach na'n haws, deall a gweithredu'r agweddau hynny ar y Ddeddf sy'n ymdrin â chyflyrau meddygol.<br><br>Mae Celiac UK wedi ymgymryd â'r gwaith o gydlynu'r gynghrair ar ôl i Sara Moran (gynt o Diabetes UK) symud i swyddfa Lynn Neagle AC. Bydd Celiac UK yn cynnal cyfarfod ar gyfer holl aelodau'r gynghrair fis nesaf i baratoi ymateb i'r ymgynghoriad arfaethedig yn yr hydref. Mae'r dogfennau y mae'r gynghrair wedi'u gweld yn awgrymu mai prin, o hyd, yw'r ddealltwriaeth o'r modd y mae'r gyfraith yn berthnasol i blant â chyflyrau meddygol, yn enwedig o ran cymhwyso'r Ddeddf Cydraddoldeb.<br><br>Bydd y Grŵp hefyd yn edrych ar waith etifeddol a sut y gallent roi rhywbeth ar waith drwy gyfrwng y Cynulliad i sicrhau bod y broses o weithredu'r Ddeddf, a gofal mewn ysgolion yn fwy cyffredinol, yn cael ei monitro a'i harchwilio'n briodol.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH i arwain cyfarfod o'r gynghrair a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn yn y cyfarfod nesaf. |
| 4 | Presgripsiynau |

| | |
|---|---|
| | a. Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r rheoliadau newydd (Norma McGough)<br><br>Soniodd Norma McGough (NMG) am benderfyniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn dilyn yr ymgynghoriad ar ddechrau'r flwyddyn i barhau i gefnogi presgripsiynau am ddim am fwydydd di-glwten ond i gyfyngu'r rhain i gymysgedd blawd a bara. Gwahoddwyd Sarah Sleet (Prif Weithredwr Celiac UK) a Norma McGough (Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgyrchoedd Celiac UK) i ymuno â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda'r bwriad o ddiwygio rheoliad y GMC ac adolygu'r Tariff Cyffuriau yn unol â phenderfyniad Llywodraeth Lloegr.<br><br>• Bwriedir cynnal ymgynghoriad ynghylch y rheoliad newydd er nad oes dyddiad wedi'i bennu eto.<br>• Mae'r tariffau cyffuriau wedi'i ddiwygio i ddiffinio'n glir beth yw cymysgedd blawd a bara at y diben hwn ac mae cynhyrchwyr bwydydd di-glwten wedi cael gwybod am hyn.<br>• Ar hyn o bryd nid oes unrhyw newidiadau ar gyfer gweddill y DU ac mae ffyrdd o adlewyrchu tariffau cyffuriau gwahanol yn y gwledydd datganoledig.<br>• Y bwriad yw cyhoeddi tarrif cyffuriau diwygiedig yn Lloegr erbyn mis Tachwedd eleni.<br>• Mae'r polisïau o ran presgripsiynau am fwydydd di-glwten yn amrywio'n arw yn Lloegr a hynny oherwydd datblygiadau polisi lleol yn 207 o Grwpiau Comisiynu Clinigol.<br>• Yn y cyfamser, mae Grŵp Comisiynu Clinigol Dyffryn Efrog wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w gynllun cardiau electronig a derbyn argymhelliad DHSC. Mae Grŵp Comisiynu Clinigol Luton hefyd wedi mabwysiadu'r drefn hon.<br>• Ysgrifennodd Celiac UK at bob Grŵp Comisiynu Clinigol a oedd â pholisi a oedd yn cynnig llai na'r ddarpariaeth a argymhellir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (un o bob tri ohonynt) a gofynnodd iddynt a fyddent yn adolygu eu polisi yn unol ag argymhelliad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dywedodd rhai eu bod yn aros am y rheoliad terfynol tra bod eraill yn dweud eu bod am barhau â'u polisi. Mae ymgynghoriadau newydd a newidiadau polisi i gyfyngu ar bresgripsiynau am fwydydd di-glwten yn dal yn mynd rhagddynt yn Lloegr<br>• Mae Celiac UK wedi gofyn am gyfarfod â'r Gweinidog Iechyd.<br><br>b. Y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun peilot Presgripsiynau Hywel Dda (Alison Jones)<br><br>Rhoddodd Alison Jones (AJ) y wybodaeth ddiweddaraf am hynt cynllun peilot presgripsiynau Hywel Dda. Er y bu peth oedi, mae wedi dechrau erbyn hyn (ers 8 Mehefin) ac mae arian wedi'i uwchlwytho ar gardiau electronig pawb sy'n rhan o'r cynllun.<br><br>• 64% wedi ymuno â'r cynllun - cysylltwyd â 194, ymunodd 123<br>• 90% yn dymuno cymryd rhan yn y prosiect ymchwil. Mae hyn yn galonogol iawn ond ni fydd yn bosibl cyfweld pawb a hoffai gymryd rhan ond mae cynlluniau ar y gweill i gyfathrebu'n uniongyrchol â nhw. |

| | |
|---|---|
| | • Dechreuodd y cynllun ar 8 Mehefin pan lwythwyd arian am dri mis. Bydd rhagor o arian yn cael ei lwytho am dri mis arall ym mis Tachwedd a bydd y prosiect yn dod i ben ym mis Rhagfyr<br>• Cafodd £1 yr uned ei lwytho ar gerdyn mastercard plaen. Er enghraifft, byddai oedolyn gwrywaidd yn debygol o gael £18 y mis, byddai merch ganol oed yn cael £14 y mis, byddai plant (gan ddibynnu ar oedran a rhyw) yn cael £11, £13, £15 neu £18 y mis, byddai merched oedrannus yn cael £14 a dynion oedrannus yn cael £16.<br>• Hyd yma nid oes neb wedi cwyno am faint o arian a gawsant ac mae'r ymateb wedi bod yn galonogol iawn. Mae pobl yn croesawu hyblygrwydd y cynllun a gellir ei ddefnyddio ar gyfer bwydydd parod cyffredin. Diben y cynllun yw cynorthwyo pobl i brynu bwydydd di-glwten yn hytrach na cheisio dweud wrthynt beth y dylent ei fwyta.<br>• Gall AJ baratoi gwybodaeth am sut a lle mae pawb yn gwario'u harian ac mae'n disgwyl y data cyntaf ym mis Medi ar ôl y tri mis cyntaf o gredyd.<br>• Rhaid anfon derbynebau ar ddiwedd y chwe mis.<br>• O'r 72 nad oeddent am gymryd rhan, roedd 3 wedi eu heithrio o'r data oherwydd eu hamgylchiadau: roedd y cyntaf yn berchen ar fecws di-glwten, yr ail yn cael triniaeth cemotherapi a'r trydydd wedi'i gynnwys yn anghywir yn y rhestr wreiddiol.<br>• Anfonwyd 72 o holiaduron i gael gwybod pam nad oedd pobl am gymryd rhan, a hynny gyda chymorth Rheolwr Ymchwil Celiac UK, Heidi Urwin.<br>• Ddiwedd mis Tachwedd, bydd presgripsiynau yn ailddechrau ac yna bydd AJ yn gwerthuso'r cynllun.<br>• Nid yw AJ bellach yn bwriadu cynnal digwyddiadau gwerthuso gan y bydd proses ad-drefnu'r Byrddau Iechyd yn mynd rhagddo'r un pryd ac mae perygl y bydd pobl yn awyddus i roi sylwadau am faterion eraill. Yn hytrach, bydd AJ yn ymweld â meddygfeydd ac yn cynnal sesiynau galw heibio i roi cyfle i bawb roi sylwadau.<br>• Yn dilyn y rhain, bydd AJ yn cyflwyno papur i Fwrdd Hywel Dda, y Grŵp Trawsbleidiol a Phrif Fferyllydd Cymru, sydd â chryn ddiddordeb yn y cynllun.<br>• Erbyn diwedd mis Tachwedd, dylai fod â syniad da ynglŷn â llwyddiant y cynllun, ond hyd yn hyn mae adborth wedi bod yn ffafriol iawn.<br>• Drwy gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, amcangyfrifir bod yr amser y llwyddwyd i'w arbed i feddygon teulu / rheolwyr meddygfeydd yn cyfateb i oddeutu £250,000 ond bydd dadansoddiad manwl o gost a budd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses werthuso.<br>• Byddai'r swm a fyddai'n cael ei arbed ar gost presgripsiynau'n unig (750 ar bresgripsiynau Hywel Dda ond 1,050 gyda chlefyd seliag) cyfwerth â £33,000 hyd yn oed pe bai'r rhai nad oeddent yn cael presgripsiwn ar hyn o bryd yn penderfynu manteisio arnynt. Nid yw hyn yn cynnwys treuliau parod cysylltiedig â phresgripsiynau fferyllfeydd, felly byddai'r gwir arbedion yn debygol o fod yn llawer mwy. |

| | |
|---|---|
| | • Data dros dro yw hwn ac mae rhagor o waith i'w wneud, ond mae'n addawol.<br><br>c. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>Cafwyd trafodaeth gyffredinol ymysg y grŵp ynghylch yr arbedion arfaethedig o dan y model hwn. Hefyd, tynnwyd sylw at fanteision anuniongyrchol y cynllun, sef y byddai gan gleifion syniad cliriach o gost presgripsiynau. Er enghraifft, cyfeiriodd AJ at gyfranogwr a gafodd ei synnu gan gost cymysgedd bara Juvela ac felly roedd yn awr yn prynu bara ffres di-glwten yn y becws lleol. Mae cleifion hefyd yn awr yn mynd i archfarchnadoedd ac yn gofyn iddynt gadw cyflenwad o fwydydd penodol.<br><br>Gofynnodd TH am y broses o ddadansoddi'r data a phryd y byddai AJ yn gallu gweld sut mae'r cerdyn yn cael ei ddefnyddio gan ddemograffeg wahanol. Er enghraifft, sut mae'r rhai mewn ardaloedd lle mae amddifadedd uchel neu ardaloedd gwledig yn defnyddio'r cerdyn o'u cymharu â'r rhai sy'n byw yn y ddinas. Sicrhaodd AJ y grŵp y byddai hyn oll yn cael ei gynnwys yn y gwerthusiad er bod problemau'n codi gyda siopa ar-lein gan na allwch ddefnyddio mwy nag un cerdyn i dalu wrth wneud hyn. Awgrymodd Geraint Preest (GPr) y gellid defnyddio system dalu trydydd parti fel Paypal ond ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfyngu gwariant i gynhyrchion di-glwten drwy ddefnyddio'r dulliau hyn o dalu. Teimlwyd y gellid mynd i'r afael â hyn yn dilyn y cynllun peilot fodd bynnag.<br><br>Roedd Rhun ap Iorwerth (RaI) AC yn awyddus i drafod y posibilrwydd o gyflwyno'r cynllun mewn ardaloedd eraill pe bai'n llwyddiannus. Penderfynwyd y byddai RaI a Dai Lloyd (DL) yn ystyried dulliau o'i gyflwyno drwy gyfrwng y Cynulliad Cenedlaethol ee cynnal ymchwiliad drwy'r Pwyllgor Iechyd (dan Gadeiryddiaeth DL) a chynnwys rhywbeth ar y rhaglen yn y flwyddyn newydd. Awgrymodd RaI hefyd y gellid gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy raglen 'Buddsoddi i Arbed'. Cafwyd trafodaeth am yr adnoddau sydd eu hangen ac awgrymodd AJ y byddent yn ystyried penodi rhywun ar fand 3-4, 2 ddiwrnod yr wythnos yn ôl bob tebyg, i weinyddu'r cynllun os penderfynir symud ymlaen.<br><br>CAM I'W GYMRYD: AJ i gyflwyno gwybodaeth am hynt y cynllun yn y cyfarfod nesaf.<br>CAM I'W GYMRYD: RaI a DL i ymchwilio i'r broses o'i gyflwyno'n ehangach drwy gyfrwng y Cynulliad. |
| 5 | Informatica:<br><br>a. Braslun o'r camau nesaf a awgrymwyd (TH / NMG)<br><br>Rhoddodd GPr drosolwg o'r heriau sy'n wynebu Informatica, y meddalwedd a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol gyda'r posibilrwydd o hybu arfer gorau meddygon teulu drwy eu rhybuddio am gleifion a allai fod â symptomau clefyd seliag. Mae'n gysyniad gwych ond nid yw'n cael ei ddefnyddio. Mae'n ymddangos bod y defnydd o feddalwedd mewn gofal sylfaenol yn newid. Mae EMIS wedi colli ei gontract i ddarparu systemau mewn meddygfeydd a bydd MicroTest a Vision yn debygol o'i ddisodli pan gaiff y contract ei ddyfarnu ar gyfer meddygon teulu Cymru. Y sefyllfa |

| | |
|---|---|
| | ddelfrydol fyddai i un o'r cwmnïau meddalwedd fabwysiadu cysyniad Informatica a'i ddatblygu o fewn eu meddalwedd eu hunain. Dylem fod yn gwybod am y dewisiadau o ran meddalwedd erbyn diwedd 2018. Mae TH yn gobeithio cael cyfarfod â Simon Scourfield (NWIS) yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd yn holi am hyn.<br><br>Cymorth Gofal Iechyd Proffesiynol mewn Gofal Sylfaenol<br><br>Awgrymodd TH y dylid ystyried ffyrdd eraill o ymgysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ochr yn ochr â hyn. Rhoddodd NMG drosolwg o'r gwaith y mae Celiac UK wedi bod yn ei wneud yn y cyswllt hwn yn Lloegr. Mae Celiac UK wedi bod yn mynd i ddigwyddiadau hyfforddi RCGP ac mae dros 100 o feddygon teulu wedi cofrestru i gael rhagor o negeseuon e-bost. Mae'n amlwg iawn nad oes gan weithwyr ym maes gofal sylfaenol fawr o wybodaeth na phrofiad o glefyd seliag a bod angen mynd i'r afael â hyn. Mae Celiac UK hefyd wedi bod yn gweithio i feithrin perthynas â chyrff proffesiynol i ddarparu hyfforddiant a DPP byr a phenodol ac adnoddau rheoli cleifion.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH i gwrdd ag SS ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. CUK i gynnwys adnoddau cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn cynlluniau busnes. |
| 6 | Sioe Bwyd Di-Glwten Cymru<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau ar gyfer 2018 (TH)<br><br>• Cynhelir y digwyddiad ar 8 Medi, 10am - 4pm yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Gallwch gofrestru yma.<br>• Gwerthwyd 610 o docynnau hyd yma. Mae 9 o arddangoswyr wedi cadarnhau y byddant yn bresennol. Yn aros i 8 arall gadarnhau (tua 17);<br>• Yn anelu at 25 ac yn disgwyl i eraill gadarnhau'n dilyn gŵyl fwyd / cyfarfod cyffredinol blynyddol Celiac UK ddydd Sadwrn yn ogystal ag un neu ddau o ddigwyddiadau Arloesi Bwyd Cymru lle byddwn yn siarad yn ystod y mis nesaf.<br>• O ran hyrwyddo, mae gennym hysbyseb yn rhaglen sioe Reading, bydd hysbysebion Facebook yn dechrau fis Gorffennaf, EXG ac ymgyrch bostio fewnol a PR ddiwedd mis Awst. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn hysbysebu gyda Chymru Ar-lein.<br>• Os hoffech wirfoddoli, cysylltwch â ni Tristan.humphreys@coeliac.org.uk .<br><br>Cyfeiriodd Sian Evans at y ffaith bod ei chydweithiwr ym maes gastroenteroleg yn hyrwyddo'r sioe ar waelod ei llythyrau at gleifion. Roedd TH yn ddiolchgar iawn am hyn. Awgrymodd DL hefyd fod RaI yn rhoi dyfynbris ar gyfer y datganiad i'r wasg a chytunodd RaI i wneud hynny.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH i gysylltu â RaI |
| 7 | Wythnos Codi Ymwybyddiaeth:<br><br>a. Digwyddiadau yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| | Rhoddodd Tristan Humphreys drosolwg byr o'r digwyddiadau yn ystod Wythnos Codi Ymwybyddiaeth yng Nghymru.<br><br>• Gweithiodd Celiac UK gydag arlwywyr y Cynulliad, sef Charlton House, i baratoi bwydlen gwbl ddi-glwten ar gyfer y ffreutur am ddiwrnod cyfan ar 15 Mai. Ynghyd â hyn, roedd gan TH stondin yn rhoi gwybodaeth am glefyd seliag, ac roedd hyn hefyd yn gyfle i drafod y clefyd ymhellach gydag aelodau'r Cynulliad.<br>• Trefnwyd cyfweliad â theulu Davage ar raglen y Post Cyntaf ar Radio Cymru ar y 15 Mai. Siaradodd DL ar raglen Post Prynhawn Radio Cymru yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.<br>• Roedd Graham Philips yn westai arbennig ar sioe radio Chris Jones ar Swansea Sound ar yr un diwrnod.<br>• Hefyd, cyflwynodd DL ddatganiad 90 eiliad ar Wythnos Codi Ymwybyddiaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol ac, mewn dadl ar y mater yn y Cynulliad, soniodd am y ffaith nad oedd canser y coluddyn yn cael ei ddarganfod gan feddygon yn ddigon cynnar.<br>• Yn olaf, cafwyd cyfweliad ag Yvonne Smith o Gorwen, sy'n aelod o Celiac UK ar gyfer North Wales Leader.<br><br>Hoffai Celiac UK ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gweithgareddau yn ystod Wythnos Codi Ymwybyddiaeth. |
| 8 | Unrhyw fater arall<br><br>a. Endosgopïau a gwasanaethau gastroentoroleg yng Nghymru.<br><br>Awgrymodd TH y byddai'n syniad da i'r grŵp drafod hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol o gofio'r ddadl a gafwyd yn y Cynulliad yn ddiweddar ynghylch canser y coluddyn. Ymddengys nad oes fawr ddim wedi digwydd o ran achrediad JAG ers y tro diwethaf i'r grŵp drafod hyn.<br><br>Dywedodd DL y byddai'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn trafod y mater ymhen 6 mis ac y byddai hyn yn gyfle da i Celiac UK gyflwyno ymateb. Cytunodd TH i wneud hynny.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH i ychwanegu hyn at agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>b. Noson gymdeithasol i'r Grŵp Trawsbleidiol<br><br>Gofynnodd TH a fyddai gan y grŵp ddiddordeb mewn cael parti Nadolig neu ryw fath o dderbyniad i ddathlu gwaith y grŵp. Roedd y grŵp o blaid y syniad a dywedodd TH y byddai'n ymchwilio ymhellach.<br><br>c. Cronfa Ymchwil<br><br>Soniodd Norma am lansio Cronfa Ymchwil Celiac UK i nodi hanner canmlwyddiant yr elusen. Cafwyd ymchwil gynyddol i'r cyflyrau niwrolegol posibl sy'n gysylltiedig â chael diagnosis hwyr o glefyd seliag ac effeithiau clefyd seliag anhydrin Math 2 sydd â phrognosis gwael iawn. Mae'r elusen yn rhoi pwyslais cynyddol ar y mathau mwyaf difrifol o'r cyflwr. Mae Celiac UK yn ceisio codi £5m tuag at waith ymchwil erbyn 2020. |

| | |
|---|---|
| | Fel rhan o'r ymgyrch hwn, mae Celiac UK, mewn partneriaeth ag Innovate UK, wedi sicrhau grant o £750,000 i hybu gwaith arloesol gan sefydliadau ymchwil a busnesau bach a chanolig. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 3 Medi. Mae TH wedi cyfarfod â Chanolfan Diwydiant Bwyd Cymru i drafod hyn ac mae'n awyddus iawn i gyrff o Gymru fanteisio ar yr arian hwn.<br><br>d. Brandview - CDNS Celiac UK<br><br>Mae Celiac UK yn monitro cost bwydydd di-glwten gan ddefnyddio data Brandview. Wrth i fanwerthwyr fel Lidl ac Aldi ymuno â marchnad y bwydydd di-glwten, bydd yn ddiddorol monitro'r effaith ar brisiau. |
| 9 | Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br><br>TH a Marcia Spooner i roi gwybod i aelodau'r Grŵp. |

**Camau i'w cymryd**

| **Camau i'w cymryd** | **Cyfrifoldeb** |
|---|---|
| Rhoi gwybodaeth am hynt y Gynghrair Gofal yn yr Ysgol | **TH** |
| Cyfarfod ag SS ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf | **TH** |
| Cysylltu â RaI i gael dyfynbris am ddatganiad i'r wasg ar gyfer Sioe Bwydydd Di-glwten Cymru | **TH** |
| Ychwanegu trafodaeth ar wasanaethau gastroentrolegol at agenda'r cyfarfod nesaf | **TH** |
| Rhoi'r wybodaeth i'r Grŵp am hynt Cynllun Peilot Hywel Dda yn y cyfarfod nesaf. | **AJ** |
| Ymchwilio i'r broses o gyflwyno'r cynllun yn ehangach drwy gyfrwng y Cynulliad | **RaI / DL** |
| Rhoi gwybod i aelodau'r Grŵp am ddyddiad y cyfarfod nesaf | **MS / TH** |